Caerdydd Un Blaned

Cynllun Gweithredu

Medi 2021

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

Caerdydd Un Blaned

Cynnwys

1. Cyflwyniad i'r cynllun

2. Methodoleg Arfarnu Prosiectau

3. Monitro a Gwerthuso Blynyddol

4. Cynllun Gweithredu

Atodiad - Saith Thema Allweddol CUB - dadansoddiad systematig o'r cyd-destun, adborth rhanddeiliaid a fframwaith gweithredu

Cyflwyniad i'r Cynllun

Mae Cynllun Gweithredu Caerdydd Un Blaned yn nodi camau gweithredu tymor byr, canolig a thymor hwy a ddatblygwyd gan y Cyngor, mewn partneriaeth ac yn seiliedig ar adborth yr ymgynghoriad ledled y ddinas ar Strategaeth Caerdydd Un Blaned. Dyma gangen gyflawni a monitro Strategaeth gyffredinol Caerdydd Un Blaned ac mae'n mynd i'r afael â'r targedau, y dadansoddiadau a'r meysydd gweithredu allweddol a nodwyd yn y strategaeth. Wrth wraidd ein strategaeth a'n camau gweithredu arfaethedig mae ein saith thema allweddol a nodir isod. Rydym wedi dadansoddi'r rhain yn systematig ac yn awr yn deall cyfraniad posibl pob un ohonynt. Mae'r atodiad i'r adroddiad yn dangos y dadansoddiad hwn. Bydd adolygiad parhaus o'r themâu hyn yn helpu i lywio a llunio'r cynllun gweithredu wrth nesáu at 2030.

Ynni Un Blaned

Mae hyn yn cynnwys sut mae ynni'n cael ei ddefnyddio, sut mae'n cael ei gyrchu, ei ddosbarthu a'i gynhyrchu. Ein nod yw defnyddio llai, cael mwy o ffynonellau adnewyddadwy glân, a helpu i adeiladu busnes o amgylch y sector cynyddol hwn.

Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth Un Blaned

Mae angen diogelu a gwella ein mannau gwyrdd a'n bioamrywiaeth hanfodol. Rhaid i ni gymryd camau beiddgar i ychwanegu at asedau gwyrdd naturiol y ddinas gan wneud lle iach, glân, amgylcheddol bositif llawn bioamrywiaeth lle gall dinasyddion a busnes ffynnu.

Trafnidiaeth Un Blaned

Mae angen i ni edrych yn fanwl ar sut yr ydym yn symud o amgylch y ddinas ac ar y seilwaith sydd ei angen i leihau effaith allyriadau cerbydau ac ansawdd aer. Ein cynlluniau yw disodli cynifer â phosibl o deithiau tanwydd ffosil defnyddwyr unigol gyda dulliau teithio carbon-isel cynaliadwy, tra'n sicrhau nad ydynt yn arwain at broblemau mewn mannau eraill.

Gwastraff Un Blaned

Drwy leihau cynhyrchiant gwastraff, gan wneud penderfyniadau caffael ystyrlon, a thrwy ailgylchu'r gwastraff a gynhyrchir yn y ffordd gywir, gallwn leihau ein hôl troed carbon. Rydym hefyd yn cydnabod y gall gwastraff penodol fod yn ffynhonnell ynni carbon-isel bwysig, gan helpu i adeiladu gweithgarwch economaidd newydd, glân, lleol a gwydn.

Bwyd Un Blaned

Mae cynhyrchu, cludo, prosesu a gwaredu bwyd yn ffynhonnell fawr o allyriadau ac mae ein cynigion wedi'u hanelu at gefnogi systemau bwyd gwell, mwy lleol a mwy cymdeithasol deg, a allai hefyd roi hwb i'r economi fwyd leol.

Amgylchedd Adeiledig ac Ansawdd Tai Un Blaned

Mae hyn yn cynnwys adeiladau a seilwaith sy'n bodoli eisoes a sy'n cael eu cynllunio. Mae angen i ni wella effeithlonrwydd ynni a gwydnwch ein hadeiladau a'n cymunedau newydd a phresennol yn gyson, a manteisio ar y sgiliau a'r swyddi sydd eu hangen i gyflawni hyn er budd yr economi leol.

Dŵr Un Blaned

Mae'r ffordd yr ydym yn cyrchu, defnyddio a rheoli dŵr, a sut yr ydym yn amddiffyn ein hunain rhag sychder a llifogydd yn rhannau hanfodol o'n hamcanion o feithrin gwydnwch hinsawdd ac mae'r strategaeth yn amlinellu cyfres o ymatebion i'r her hon nawr ac yn y dyfodol.

Cyflwyniad i'r Cynllun

Mae dadansoddiad parhaus o'r camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ein themâu wedi arwain at y set gyntaf o brosiectau cyfalaf wedi'u meintioli a'u modelu i gyfrannu at ein camau gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Bydd Cynllun Gweithredu Caerdydd Un Blaned yn
- Nodi'n flynyddol ddiweddariad, adolygiad a chynllun ar gyfer prosiectau datgarboneiddio a lliniaru newid yn yr hinsawdd sydd ar y gweill, sydd wrthi'n cael eu datblygu a'r rhai arfaethedig.
- Rhoi gwybod am y cynnydd a wnaed o ran amcanion lleihau allyriadau carbon niwtral
- Cynnig ac ymgorffori syniadau a chysyniadau prosiectau newydd ar gyfer mewnbwn rhanddeiliaid
- Adolygu Strwythurau Llywodraethu ac ymgorffori diweddariadau ar unrhyw drefniadau newydd

Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i hwn fod yn 'ddegawd o gyflawni' ac rydym wedi cychwyn arni: rydym wedi cyflawni rhai prosiectau seilwaith mawr a newidiadau polisi beiddgar i ddechrau'r newid i economi carbon-isel.

Methodoleg Arfarnu Prosiectau

Rydym wedi datblygu a defnyddio Teclyn Gwerthuso Effaith Carbon er mwyn adolygu detholiad o brosiectau Strategaeth CUB uniongyrchol.

Rydym wedi arfarnu'r set gyntaf o brosiectau tymor byr, mae rhai wedi bod yn mynd rhagddynt ers peth amser ac mae rhai ar eu camau cynnar. Mae'r rhain yn gamau gweithredu y cytunwyd arnynt ac sy'n cael eu hariannu, sydd â chanlyniadau carbon hysbys.

Mae'r teclyn yn helpu i flaenoriaethu prosiectau sy'n ystyried yr Effaith ar Garbon a'r Effaith Gymdeithasol Mae asesiadau a dangosyddion Effaith Gymdeithasol yn cyd-fynd â'r Fframwaith Mesur Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol (ThCM Cenedlaethol yn fyr).

Rydym yn defnyddio'r dangosyddion asesu canlynol.
- Budd carbon o gyflawni'r prosiect arfaethedig (Gwerthusiad o'r effaith ar allyriadau carbon cyn/ar ôl y prosiect)
- Cefnogi pobl allan o dlodi (yn cynnwys tlodi tanwydd)
- Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn
- Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn
- Cymunedau diogel, cydlynol a grymus
- Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru
- Moderneiddio ac integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus

Gellir cymharu arbedion carbon blynyddol ac arbedion carbon gydol oes prosiectau ochr yn ochr mewn Dangosfwrdd Cryno. Gan ddefnyddio hyn, gellir gwerthuso a blaenoriaethu prosiectau wedyn am y cyfraniad mwyaf i'r Strategaeth CUB.



OS NA WNAWN UNRHYW BETH

OS BYDDWN YN GWEITHREDU NAWR

Monitro a Gwerthuso Blynyddol

Byddwn yn monitro effaith ein gweithredoedd drwy gyfrifo'n flynyddol;

- Allyriadau Carbon y Cyngor gan ddefnyddio methodoleg Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo allyriadau sy'n cwmpasu Cwmpas 1, 2 a 3
- Allyriadau Carbon y Ddinas gan ddefnyddio data BEIS
- Effaith Gymdeithasol prosiectau arfaethedig gan ddefnyddio ein Teclyn Gwerthuso Effaith Carbon

Byddwn yn gwerthuso cynnydd drwy ddiweddaru Cynllun Gweithredu CUB yn rheolaidd gan nodi'r cynnydd yn erbyn ein targedau Carbon Niwtral erbyn 2030 ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled y ddinas yn unol â'n strategaeth datblygu ymgysylltu a newid ymddygiad.

Prosiect Datgelu Carbon (PDC)

Rydym hefyd yn bwriadu adeiladu ar ein hadroddiad blynyddol presennol i'r Prosiect Datgelu Carbon i adrodd yn flynyddol ar y cynnydd y mae ein Dinas yn ei wneud o ran addasu a lliniaru.

Mae PDC yn darparu'r llwyfan byd-eang i ddinasoedd fesur, rheoli a datgelu eu data amgylcheddol. Mae bron i 1 rhan o 5 o'r allyriadau tŷ gwydr byd-eang yn cael ei adrodd drwy PDC gyda dros 8,000 o sefydliadau gan gynnwys 550 o ddinasoedd a 50 o daleithiau'r UDA yn defnyddio'r fframwaith i adrodd.

Mae Cyngor Caerdydd eisoes yn adrodd i PDC a chredwn y gallwn adeiladu ar y gwaith presennol a defnyddio'r fframwaith i ddangos ein cynnydd a'n gweithgareddau sy'n ymwneud â lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu ar ei gyfer.

Mabwysiadwyd PDC gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd fel fframwaith i fonitro a gwerthuso perfformiad y rhanbarth yn erbyn ei strategaeth ddatgarboneiddio.

> **Rydym hefyd yn bwriadu adeiladu ar ein hadroddiad blynyddol presennol i'r Prosiect Datgelu Carbon i adrodd yn flynyddol ar y cynnydd y mae ein Dinas yn ei wneud o ran addasu a lliniaru**

CDP
DISCLOSURE INSIGHT ACTION

Cynllun Gweithredu

Rydym wedi modelu cyfres o brosiectau gan ddefnyddio'r fethodoleg i ddeall eu manteision yn fanylach ac i helpu i flaenoriaethu'r rhai sy'n cael yr effaith fwyaf ar gyfer blwyddyn gyntaf ein cynllun gweithredu.

Mae'r camau gweithredu tymor byr yn brosiectau y cytunwyd arnynt ac sy'n mynd rhagddynt, ac mae'r camau gweithredu canolig a thymor hwy wrthi'n cael eu datblygu. Rydym yn rhagweld y bydd y cynllun deinamig hwn yn datblygu'n gyflym dros y blynyddoedd nesaf wrth i'r rhaglen gasglu hyd yn oed mwy o fomentwm gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ledled y ddinas.

Rydym hefyd wedi datblygu "dangosfwrdd" syml sy'n dangos sut y bydd ein gweithredoedd yn effeithio ar gyfrifiadau llinell sylfaen Carbon y Cyngor a'r ddinas, sydd i'w gweld yn fanwl yn Nogfen Strategaeth CUB.

> **Rydym yn rhagweld y bydd y cynllun deinamig hwn yn datblygu'n gyflym dros y blynyddoedd nesaf wrth i'r rhaglen gasglu hyd yn oed mwy o fomentwm gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ledled y ddinas.**

Dangosfwrdd Allyriadau 2021	Allyriadau Cyngor Caerdydd			Allyriadau'r Ddinas Gyfan
	Cwmpas 1	Cwmpas 2	Cwmpas 3	Cwmpas 1 a 2
Allyriadau Sylfaen 2019/20 t CO_2e	14,745	11,373	159,019	1,626,059
Gostyngiad mewn allyriadau Prosiectau Tymor Byr a Aseswyd t CO_2e	8,809	6,031	I'w gadarnhau	358,972
Allyriadau Gweddilliol (t CO_2e)	5,936	5,342	I'w gadarnhau	1,267,087
canran a dynnwyd %	57		I'w gadarnhau	22

Camau Gweithredu ar unwaith/tymor byr

					EFFAITH CARBON			
					Allyriadau Cyngor Caerdydd t CO_2e			Allyriadau'r Ddinas Gyfan t CO_2e
THEMA CUB	**TEITL Y PROSIECT**	**MANYLION Y PROSIECT**	**STATWS Y PROSIECT**	**Y CAMAU NESAF**	Cwmpas 1	Cwmpas 2	Cwmpas 3	Cwmpas 1 a 2
Trafnidiaeth	Papur Gwyn Trafnidiaeth	Parhau i weithredu'r prosiectau Papur Gwyn Trafnidiaeth a gymeradwywyd gyda tharged i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sgil teithio ar y ffyrdd gan 50% ar draws y Ddinas.	Wedi'i gymeradwyo ac wrthi'n cael ei weithredu	Parhau â'r Rhaglen Weithredu yn amodol ar geisiadau am gyllid pellach a chydweithio â phartneriaid yn ôl yr angen.				328576
Ynni	Rhaglen Ôl-osod Ystâd y Cyngor er mwyn gwella Effeithlonrwydd Ynni	Bydd Strategaeth Eiddo Corfforaethol 2021-26 newydd yn cael ei chyhoeddi ym mis Tachwedd 2021 a fydd yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn lleihau allbwn carbon ei ystâd weithredol ac ysgolion, a'i wrthbwyso drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy newydd, gan dargedu gostyngiad o 60% erbyn 2030	Cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Tachwedd	Bydd yn cael ei ddiweddaru ar ôl cymeradwyo'r strategaeth.	5340	5277		
Ynni	Darparu Cam 1 y Rhwydwaith Gwres	Dechrau adeiladu Cam 1 Rhwydwaith Gwres Caerdydd erbyn Ionawr 2022	Wedi'i ariannu'n llawn ac yn cael ei weithredu	Cyfnod adeiladu 3 blynedd gyda gwaith i sicrhau cysylltiadau ychwanegol a chyllid cam 2 ochr yn ochr.	732			
Trafnidiaeth	Newid Fflyd y Cyngor	Datblygu a Gweithredu Strategaeth Amnewid Cerbydau'r Cyngor yn unol â'r Strategaeth Allyriadau Isel i ddarparu Fflyd Carbon Isel gan sicrhau bod cerbydau trydan yn disodli o leiaf 90 o gerbydau'r Cyngor erbyn 2022.	Cam cychwynnol wedi'i gymeradwyo ac yn mynd rhagddo	Camau yn y dyfodol yn amodol ar geisiadau am gyllid ychwanegol, gan gynnwys o amgylch hydrogen arloesol ac atebion eraill ar gyfer cerbydau trymach. Adroddiad y Cabinet yn amlinellu'r camau a'r gwaith asesu pellach sydd ei angen.	2737			
Seilwaith Gwyrdd	Coed Caerdydd	Datblygu dull rhaglen gyfannol o blannu coed a rheoli tir ledled y ddinas i wella bioamrywiaeth ac ehangu gorchudd coed y ddinas gan 25%	Wedi'i ariannu'n llawn ac yn cael ei weithredu	Ymgysylltu'n ddyfnach â sefydliadau partner ar fentrau tir a rennir drwy Fwrdd Argyfwng Hinsawdd y BGC.				13372
Yr Amgylchedd Adeiledig	Adeiladau Newydd Di-garbon ar gyfer Ystâd Dai'r Cyngor	Mae'r Cyngor wedi gweithredu rhaglen datblygu tai fawr sy'n darparu 2,700 o gartrefi cyngor newydd dros y 6-7 mlynedd nesaf. Bydd dros 2,000 o gartrefi cyngor newydd sbon (rhaglen sydd wedi'i chynllunio dros gyfnod o 10 mlynedd) yn bodloni safonau uwch. Mae tua 500 wedi'u hadeiladu neu wrthi'n cael eu hadeiladu sy'n rhagori ar y safonau adeiladu blaenorol (SAP B+).	Wedi'i ariannu'n llawn ac yn cael ei weithredu	Nid yw effaith prosiectau adeiladu newydd ar allyriadau nwyon tŷ gwydr sylfaen presennol y Cyngor a/neu'r Ddinas wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad cryno hwn. Er mwyn asesu effaith stoc adeiladau newydd ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae angen i'r Cyngor gynnal dadansoddiad manwl o gylch bywyd ar gyfer pob cam y prosiect (gan gynnwys gweithredu).	dd/b		dd/b	i'w gyfrifo
Ynni	Rhaglen Ôl-osod Ystâd Dai'r Cyngor er mwyn gwella Effeithlonrwydd Ynni	Cynllun Ôl-osod Ynni ar gyfer blociau tai cyhoeddus isel. Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n raddol i fynd i'r afael â'r blociau sy'n perfformio waethaf yn gyntaf dros gyfnod o 10 mlynedd a dylai, yn y pen draw, weld dros 700 o flociau isel yn cael eu gwella	Rhaglen weithredu derfynol wrthi'n cael ei datblygu	Yr achos busnes terfynol i'w ddatblygu i'w gymeradwyo gan y Cabinet.				2455
Ynni	Goleuadau Stryd LED	Parhau i weithredu mesurau amnewid a gwanhau goleuadau LED	wrthi'n cael ei weithredu	Cwblhau'r gwaith gosod i'r amserlenni y cytunwyd arnynt.		754		
Bwyd	Strategaeth Fwyd Caerdydd	Hyrwyddo bwyd iach, lleol a charbon isel drwy gyflawni Strategaeth Fwyd Caerdydd erbyn 2024. Mae hyn yn cynnwys datblygu strategaeth ar gyfer dull carbon-ymatebol a chyfannol o ymdrin â bwyd mewn ysgolion ledled Caerdydd, mesurau i fynd i'r afael ag anialwch bwyd yn y ddinas a chynlluniau i dyfu mwy o fwyd yn lleol mewn dull cynaliadwy	wrthi'n cael ei weithredu	Swydd cydlynydd bwyd yn cael ei hysbysebu i gyflymu a chydlynu'r gwaith	Canolig			
Newid Ymddygiad	Cynllun gweithredu a chyswllt ag ysgolion	Sefydlu rhaglen addysg argyfwng hinsawdd integredig ar gyfer y cwricwlwm i ysgogi'r gwaith o greu a gweithredu cynlluniau gweithredu sy'n benodol i ysgolion	wedi'i gytuno ar lefel polisi	Strategaeth gyfathrebu a chynllun ymgysylltu ar gyfer camau gweithredu a chyflawni wedi'u targedu				Mawr
Newid Ymddygiad	Rhaglen newid ymddygiad ddinas gyfan	Cyflwyno rhaglen barhaus o ymgysylltu â dinasyddion, busnesau a gweithwyr, targedu meysydd newid ymddygiad effaith uchel, a sefydlu methodoleg systematig ar gyfer mesur a monitro effeithiau	Strategaeth ymgynghorol wedi'i chwtogi ac arolygon cychwynnol wedi'u paratoi	Gweithredu strwythur arolygon a monitro ar gyfer ymgysylltu tymor hwy.	Mawr			

Camau Gweithredu Tymor Canolig/Tymor Hwy

					EFFAITH CARBON			
					Allyriadau Cyngor Caerdydd t CO_2e			Allyriadau'r Ddinas Gyfan t CO_2e
THEMA CUB	**TEITL Y PROSIECT**	**MANYLION Y PROSIECT**	**STATWS Y PROSIECT**	**Y CAMAU NESAF**	Cwmpas 1	Cwmpas 2	Cwmpas 3	Cwmpas 1 a 2
Yr Amgylchedd Adeiledig	Adeiladau Newydd yn Ystâd Gorfforaethol ac Ysgolion y Cyngor	Er mwyn sicrhau y cyflawnir targedau lleihau carbon Caerdydd Un Blaned, o fewn yr ystâd Addysg yn ogystal â'r Ystâd Gorfforaethol, cynigir y bydd unrhyw ddatblygiad adeiladau newydd a gaffaelwyd gan y Cyngor erbyn 2024 yn Garbon Niwtral, sy'n rhagori ar safonau cyfredol y Rheoliadau Adeiladu.	Egwyddor wedi'i chyhoeddi yn adroddiad interim CUB Mai 2021	Datblygu strategaeth fanwl wedi'i llywio gan gynlluniau peilot cyfredol	Mawr	Mawr		
Ynni	Prosiectau Ynni Adnewyddadwy Mawr	Datblygu llif o brosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy posibl i'w cymeradwyo a'u gweithredu o 2022	Wrthi'n datblygu achos busnes	Ceisio cymeradwyaeth y cabinet i achos busnes 2022/23				2977
Ynni	Rhwydwaith Gwres	Ymestyn Cam 1 i adeiladau preifat eraill a Cham 2 a thu hwnt	GH i gadarnhau					9046
Gwastraff	Datganiad Sefyllfa a Chynllun Gweithredu Plastig Defnydd Untro	Datblygu strategaeth sy'n canolbwyntio ar gaffael. Mae angen ystyried holl weithgareddau caffael y Cyngor ar gyfer dewisiadau amgen cynaliadwy yn lle plastigau defnydd untro. Darparu sachau sbwriel y gellir eu hailddefnyddio i leihau plastigau defnydd untro. Ar gam prawf ar hyn o bryd gyda'r bwriad o'i weithredu yn y dyfodol.	Mae'r gwaith pennu cwmpas cychwynnol wedi dechrau.				Canolig	
Ynni	Ôl-osod Tai Preifat i fod yn Rhad ar Ynni	Datblygu strategaeth bartneriaeth gydgysylltiedig i hyrwyddo ac ehangu rhaglen ôl-osod effeithlonrwydd ynni tai ar draws pob deiliadaeth o dai sy'n targedu hyd at 2,000 o dai y flwyddyn erbyn 2024	Astudiaeth gwmpasu wedi'i nodi a gwaith partneriaeth ar draws y rhanbarth wrthi'n cael ei drafod					2546
Newid Ymddygiad	Cynlluniau teithio busnes	Datblygu strategaeth i leihau allyriadau o deithio busnes a fflyd lwyd drwy hwyluso clwb ceir/ceir cronfa carbon isel, adolygu polisïau hawlio milltiroedd ac ystyried cyflwyno cynlluniau lldio Cyflog ar gyfer cerbydau ULEV.	Menter newydd i fynd i'r afael â hi yn dilyn canlyniadau'r archwiliad carbon	Asesu effeithiau'r strategaeth ar leihau allyriadau Economi gylchol a hyfforddiant carbon isel i fanylebwyr			Canolig	
Newid Ymddygiad	Strategaeth Gaffael Economi Gylchol/ Carbon Isel	Datblygu a chyhoeddi strategaeth gaffael ddiwygiedig i helpu i sicrhau manyleb carbon is, i ffafrio gweithgareddau cyflenwi carbon isel ac i ymgorffori egwyddorion economi gylchol lle bo hynny'n bosibl	Dan ystyriaeth fel rhan o adolygiad o'r strategaeth Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol				Mawr	
Newid Ymddygiad	Cynlluniau Cymudo Staff	Hyrwyddo cyfleoedd i leihau effaith carbon yn sgil cymudo drwy ddatblygu cyfleoedd gweithio'n hybrid, hyrwyddo newid i fathau cynaliadwy o deithio ac ystyried cynllun lldio Cyflog ar gyfer cerbydau trydan	Menter newydd i fynd i'r afael â hi yn dilyn canlyniadau'r archwiliad carbon				Canolig	
Newid Ymddygiad	Gweithio mewn Partneriaeth â'r Sector Cyhoeddus	Coladu cyfanswm effaith strategaethau lleihau carbon ar y cyd yn y ddinas a nodi cyfleoedd i'w cyflymu drwy gydweithio	Sefydlwyd Bwrdd Argyfwng Hinsawdd y BGC					Mawr

Ynni Un Blaned

Atodiad - Saith Thema Allweddol CUB
Rydym wedi ymgorffori'r adborth o'r ymgynghoriad mewn dadansoddiad o'n saith thema allweddol.

Mae camau gweithredu ar unwaith, tymor canolig a thymor hwy a nodwyd a'r cyfeiriad y bydd y Cyngor yn ei gymryd i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cyd-fynd â'n saith thema.

Rydym wedi adnewyddu ein hymrwymiadau gan ymgorffori adborth o'r ymgynghoriad yn yr adrannau canlynol.

Mae sut rydym yn defnyddio a chynhyrchu ynni'n hanfodol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Drwy ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon gallwn leihau'r galw'n sylweddol, gan roi hwb ar yr un pryd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy i ddisodli tanwydd ffosil, gan gynnwys glo, olew a nwy. Mae angen i ni fynd i'r afael â sut rydym yn gwresogi adeiladau, sut rydym yn defnyddio trydan a sut rydym yn cynhyrchu ynni, ac mae angen i ni wneud hynny'n gyflym.

Mae'r dechnoleg yno'n barod. Fel dinas mae angen i ni barhau i gymryd rhan ac arwain ar atebion arloesol ar gyfer cynhyrchu ynni glân lleol a cheisio sicrhau bod gennym amrywiaeth o ffynonellau ar waith, gan gynnwys troi gwastraff yn ynni, ynni gwynt, dŵr, a thir.

Ynni Un Blaned

Yr hyn oedd gennych chi i'w ddweud

Roedd ynni'n cael ei raddio fel y prif gam gweithredu a blaenoriaeth gan y cyhoedd, pobl ifanc ac ymgyngoreion busnesau.

Mae'r adborth yn helpu i lunio a blaenoriaethu camau gweithredu. Yn benodol, rydych am weld;

- Pob datblygiad newydd (nad yw wedi'i adeiladu gan y Cyngor) yn defnyddio ynni a gwres adnewyddadwy.
- Gosod cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ledled y ddinas yn ogystal â phaneli solar ar doeau priodol ac annog pobl i ddefnyddio PV solar ar y to a storio batris cartref i drydaneiddio'r defnydd o ynni.
- Nodi a datblygu prosiectau ynni newydd posibl er enghraifft; creu trydan drwy'r morglawdd presennol; ffermydd solar arnofiol (môr); ffermydd gwynt a throi carthffosiaeth yn ynni a datblygu ffermydd solar newydd.
- Defnyddio cyflenwyr/tariffau ynni gwyrdd/ adnewyddadwy ar gyfer holl adeiladau'r Cyngor.
- Defnyddio enghreifftiau o arfer gorau gan sefydliadau eraill a chyrff cyhoeddus gan gynnwys gweithio gyda grwpiau ynni cymunedol i ddatblygu targedau a mesurau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy glân.
- Mae angen blaenoriaethu cynlluniau effeithlonrwydd ynni i wella safon y tai gan ddechrau gydag aelwydydd sy'n dioddef tlodi tanwydd a thai cymdeithasol. Dylai'r strategaeth hon fanteisio'n llawn ar botensial cynlluniau ôl-osod cartrefi.
- Sicrhau yr ystyrir boeleri hybrid a ffynonellau ynni ategol eraill (er enghraifft, pympiau gwres o'r ddaear) ar flaen unrhyw benderfyniad a wneir wrth ddisodli boeleri nwy.
- Bydd angen i Gaerdydd benderfynu ar y ffordd y bydd yn cael gwared yn raddol ar wresogyddion nwy domestig yn llawer cyflymach na chanol y 2020au o gofio bod angen cyrraedd y targed sero-net erbyn 2030. Mae angen mwy o fanylion yn y strategaeth ynghylch sut y bydd aelwydydd preifat yn gallu symud i ffwrdd o wres canolog nwy naturiol.

Yn yr un cyfnod, mae'r Cyngor wedi lleihau ei allyriadau carbon gan 45% drwy weithredu miloedd o fesurau effeithlonrwydd ynni a gosod ynni adnewyddadwy mewn cartrefi ac adeiladau cyhoeddus ledled y ddinas

> **"Ers 2005, mae Caerdydd fel dinas wedi lleihau ei hallyriadau carbon yn y sector domestig gan 38% a gan 55% yn y sector diwydiannol a masnachol"**

Caerdydd Un Blaned

Cynllun Gweithredu Caerdydd Un Blaned
Medi 2021

Uchelgais: Graddfa a Chyflymder yr Her

Gyda'n gilydd, mae angen i ni droi'r pŵer i lawr o ran ein defnydd o ynni a lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil, gan gynnwys y nwy a ddefnyddiwn ar gyfer gwresogi, a thrydan a gynhyrchir o orsafoedd pŵer glo a nwy. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatgarboneiddio ein trydan grid drwy gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy ochr yn ochr â chynlluniau i ddileu tanwydd ffosil nwy yn raddol, a rhaid inni gefnogi'r ymdrechion hyn drwy leihau'r galw. Rhaid i ni hefyd gryfhau cydnerthedd ynni lleol drwy ddatblygu trydan adnewyddadwy i'w ddefnyddio yn y rhanbarth a newid i ffynonellau gwresogi carbon-isel, ynghyd ag inswleiddio cartrefi'n well.

Rydym wedi gwrando ar ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedi ymgorffori eich adborth mewn nodau a chamau gweithredu allweddol a fydd yn hwyluso'r gwaith o drosglwyddo i garbon isel ledled y ddinas, gan wireddu nifer o fanteision economaidd a chymdeithasol i drigolion y ddinas. Nodir isod y meysydd ffocws allweddol y mae'r Cyngor yn rhagweld y byddant yn cael effaith ystyrlon ar ein hallyriadau. Mae ein hymrwymiadau i gyflawni hyn wedi'u nodi isod ac fe'u nodir yn ein cynllun gweithredu deinamig a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed.

PRIF FEYSYDD FFOCWS	EIN HYMRWYMIAD	
	Cyngor	**Dinas -** Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sbarduno newid ar draws y ddinas gan gynnwys:
1 Newid Ymddygiad i ddefnyddio ynni yn fwy effeithlon	Rydym yn cyflwyno rhaglen gynhwysfawr ar gyfer mesuryddion clyfar, monitro a rheoli ar draws ein hystâd waith ac yn hyrwyddo gosod mesuryddion clyfar gyda thenantiaid y Cyngor. Rydym yn datblygu strategaeth newid ymddygiad a strategaeth ymgysylltu ledled y ddinas i gefnogi'r gwaith o gyflawni CUB.	Fel rhan o becynnau cyngor effeithlonrwydd ynni ehangach gyda'n partneriaid Cynhesrwydd Fforddiadwy, rydym yn hyrwyddo'r defnydd o fesuryddion clyfar drwy grantiau Ynni Clyfar y DU. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, grwpiau cymunedol, partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a busnesau ym mhob rhan o'r ddinas i annog newid mewn ymddygiad.
2 Symud i ffwrdd o Ddibynnu ar Danwydd Ffosil	Byddwn yn lleihau ein hallyriadau o'n hystâd gorfforaethol gan gynnwys ysgolion gan 60% erbyn 2030 Bydd ynni a gwres adnewyddadwy neu gynaliadwy yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer holl adeiladau newydd y Cyngor gan gynnwys ysgolion a thai. Rydym yn trosglwyddo ein fflyd ein hunain i gerbydau allyriadau isel iawn erbyn 2030 ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid i osod seilwaith ar draws y ddinas i drigolion. Gweithredu amcanion y papur gwyn ar drafnidiaeth i wella opsiynau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn hwyluso newid moddol i ffwrdd o ddibynnu ar geir ledled y ddinas	Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid ledled y ddinas i gynllunio sut i symud i ffwrdd o nwy fel ein prif ffynhonnell wresogi, a defnyddio opsiynau mwy cynaliadwy fel pympiau gwres trydan wedi'u datgarboneiddio, gwres o'r ddaear a hydrogen i leihau'r galw am nwy gweddilliol wedi'i ddatgarboneiddio. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hwyluso'r gwaith o gyflwyno opsiynau gwresogi cynaliadwy, gan annog defnyddio llai o ynni er mwyn hwyluso'r newid hwnnw. Gweithio gyda phartneriaid i osod y seilwaith i annog defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) ar draws y ddinas Gweithio gyda rhanddeiliaid y ddinas i adolygu polisïau trafnidiaeth staff ac annog newid moddol ar gyfer teithiau i mewn i'r ddinas ac o'i hamgylch
3 Gosod Systemau Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy ar draws y Ddinas at Ddefnydd Uniongyrchol; Trydan a Gwres	Datblygu hyd at 20MW o gynhyrchiant ynni adnewyddadwy ar draws Ystâd y Cyngor Rydym yn datblygu cyfres o brosiectau ynni adnewyddadwy seilwaith mawr sy'n uchelgeisiol ac amrywiol ar draws y ddinas.	Ystyried proses fasnachol a domestig fawr ar gyfer cyflwyno PV solar â chapasiti storio batris, lle y bo modd, i gydbwyso'r cyflenwad a rhannu'r manteision. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu prosiectau arloesol ac uchelgeisiol sy'n ymwneud â chyfleoedd newydd i gynhyrchu ynni a gwres.
4 Datgarboneiddio'r Grid Nwy a Thrydan	Gweithio gyda darparwyr nwy a thrydan i sicrhau bod llawer mwy o'r trydan a nwy a ddefnyddir ar draws y ddinas yn deillio o ffynonellau adnewyddadwy fel solar, gwynt, dŵr, morol, bio-nwy a hydrogen. Rydym yn cyflwyno Cam 1 o'r rhwydwaith gwres carbon isel a fydd yn gwasanaethu adeiladau mawr o amgylch y ddinas.	Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol a'r ddinas i gyflymu'r broses o ddatgarboneiddio'r grid nwy a'r grid trydan Cyflwyno camau 1, 2 a 3 Rhwydwaith Gwres Caerdydd i gysylltu adeiladau mawr â ffynhonnell gwres carbon isel.
5 Ei gwneud yn ofynnol i bob Datblygiad Newydd ddefnyddio Trydan a Gwres Adnewyddadwy	Nodyn cyfarwyddyd datblygu carbon isel ar gyfer pob datblygiad newydd yn y ddinas cyn paratoi'r CDLl newydd.	Cysylltu, neu ddefnyddio dewisiadau carbon is addas lle maent yn bodoli, megis y gronfa wres o dan y ddinas. Ni allwn ganiatáu i ddatblygiadau newydd ychwanegu at ein problemau carbon yn ddiangen.

Beth gallwch chi ei wneud?

- **Cael mesurydd deallus i'ch helpu i ddeall a rheoli'r defnydd o ynni a chostau.**
- **Gwirio inswleiddio eich llofft, drysau a ffenestri i atal gwres rhag dianc ac i leihau eich biliau a'ch ôl troed carbon.**
- **Newid i dariff ynni gwyrdd. Mae tariff gwyrdd yn golygu mai dim ond i gynhyrchwyr ynni adnewyddadwy y bydd eich cyflenwr yn trosglwyddo'r biliau a dalwch am eich pŵer.**
- **Mae cynhyrchu eich ynni adnewyddadwy eich hun ar gyfer eich cyflenwad gwres, dŵr poeth a thrydan yn arbed carbon a gall hefyd fwydo'n ôl i'r grid. Os gallwch chi, ystyriwch gael paneli PV solar neu ddŵr poeth solar yn eich cartref.**

Amgylchedd Adeiledig Un Blaned

Dros yr 20 mlynedd nesaf, disgwylir i Gaerdydd fod y ddinas fawr sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, gan gyrraedd poblogaeth o tua 400,000 o bobl; mwy na phob awdurdod lleol arall yng Nghymru gyda'i gilydd.

Mae'r datblygiadau i ddarparu ar gyfer y twf poblogaeth hwnnw'n parhau gyda thua 14,000 o gartrefi newydd wedi'u cynllunio, ynghyd â seilwaith cysylltiedig a chynlluniau datblygu economaidd ategol.

Mae angen inni gyflawni datblygiadau newydd cynaliadwy, ond mae'r ffordd yr ydym yn rheoli ac yn defnyddio ein hadeiladau presennol yn un o'r meysydd mwyaf o ran effaith y gellir ymdrin ag ef yn ymarferol er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

> **"Dros yr 20 mlynedd nesaf, disgwylir i Gaerdydd fod y ddinas fawr sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, gan gyrraedd poblogaeth o tua 400,000 o bobl; mwy na phob awdurdod lleol arall yng Nghymru gyda'i gilydd"**

Cynllun Gweithredu
Caerdydd Un Blaned
Medi 2021

Amgylchedd Adeiledig Un Blaned

Yr hyn oedd gennych chi i'w ddweud

Mae adborth yr ymgynghoriad ynghylch 'Amgylchedd Adeiledig' wedi helpu i lywio, siapio a blaenoriaethu'r camau gweithredu, gan gynnwys.

- Mae'r holl randdeiliaid yn cefnogi'r galw am adeiladu'r holl ddatblygiadau newydd i safon carbon isel.
- Galw am gynnal asesiad allyriadau carbon ar adeiladau newydd
- Mae gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau yn cael ei gefnogi'n eang gan y cyhoedd a phobl ifanc;
- Mae gosod mwy o fesurau effeithlonrwydd ynni/ynni adnewyddadwy ar draws adeiladau ac ystadau'r Cyngor yn cael ei gefnogi fel mecanwaith i gyflawni hynny.
- Mwy o fanylion am ailddefnyddio neu ddiweddaru adeiladau sy'n bodoli eisoes, gan y credir bod gormod yn cael eu chwalu'n rhy fuan.
- Galw ar i'r strategaeth CUB alinio'n agosach â CDLl Cyngor Caerdydd gyda Phwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn datgan yn benodol y byddai'n hoffi i'r CDLl ddangos yn well werth mannau gwyrdd yn y ddinas a diogelu'r seilwaith gwyrdd, yn enwedig coed.

Rydym wedi bod yn gweithio ar gyfres o welliannau effeithlonrwydd ynni ac ôl-ffitiadau i'n hystâd weithredol sydd wedi helpu i leihau ein defnydd o ynni ac, o ganlyniad, ein hallyriadau carbon cyn y targedau a osodwyd yn ein Strategaeth Lleihau Carbon yn 2015-2020 o ostyngiad blynyddol o 5% y flwyddyn mewn carbon.

> **"Ers 2013, rydym wedi gosod tua 9,500 o fesurau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi ledled Caerdydd"**

Uchelgais: Graddfa a Chyflymder yr Her

Rydym wedi gwrando ar ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedi ymgorffori eich adborth mewn nodau a chamau gweithredu allweddol a fydd yn hwyluso'r gwaith o drosglwyddo i garbon isel ledled y ddinas, gan wireddu nifer o fanteision economaidd a chymdeithasol i drigolion y ddinas.

Nodir isod y meysydd ffocws allweddol y mae'r Cyngor yn rhagweld y byddant yn cael effaith ystyrlon ar ein hallyriadau ac mae ein hymrwymiadau i gyflawni hyn wedi'u nodi isod ac fe'u nodir yn ein cynllun gweithredu deinamig a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed

> **"Byddwn yn adeiladu pob ysgol newydd i safon Carbon Niwtral erbyn 2023"**

PRIF FEYSYDD FFOCWS	EIN HYMRWYMIAD	
	Cyngor	**Dinas -** Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sbarduno newid ar draws y ddinas gan gynnwys:
1 Ôl-ffitio Adeiladau Presennol ac uwchraddio Seilwaith	Rydym wedi ymrwymo i leihau allyriadau gan 60% erbyn 2030 ar draws ein hystâd gorfforaethol. Rydym wedi ymrwymo i raglen i adnewyddu'n llwyr ein tai cymdeithasol dros y 10 mlynedd nesaf.	Byddwn yn cyflymu rhaglenni partneriaeth i ddarparu ôl-ffitiadau ar raddfa fawr mewn adeiladau cyhoeddus, domestig a masnachol ledled y ddinas gyda mesurau i leihau'r galw am ynni, fel inswleiddio, gwell rheolaethau ac offer mwy ynni-effeithlon ac adnewyddadwy. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a hwyluso mynediad at gynlluniau i uwchraddio eiddo ac ôl-ffitio.
2 Symud i ffwrdd o ddibyniaeth ar danwydd ffosil nwy ar gyfer gwresogi adeiladau cyhoeddus a domestig	Byddwn yn sicrhau bod adeiladau cyhoeddus presennol yn barod ar gyfer y rhwydwaith gwres er mwyn cysylltu â cham 2 a 3 Rhwydwaith Gwres Caerdydd. Rydym yn ymgorffori'r cyfle i symud i ffynonellau gwres adnewyddadwy ym mhob adeilad ac uwchraddio asedau cyhoeddus.	Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws y ddinas i leihau'r defnydd o nwy tanwydd ffosil, gan helpu partneriaid cyfleustodau i gyflawni targedau datgarboneiddio drwy sicrhau y gellir datgarboneiddio'r defnydd o nwy gweddilliol drwy gynyddu effeithlonrwydd adeiladau a defnyddio rheolaethau. Gweithio gyda rhanddeiliaid ledled y ddinas i osod ffynonellau gwres cynaliadwy mewn tai, adeiladau cyhoeddus a masnachol
3 Adeiladau Newydd Carbon-Isel	Adolygiad o CDLl Caerdydd i'w gwblhau erbyn 2024 gyda newid yn yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy wrth ei wraidd. Bydd holl dai cymdeithasol newydd sbon y Cyngor bellach yn cyflawni sgôr perfformiad ynni o A ac yn bodloni safon carbon sero-net lawn erbyn 2030 Rydym yn anelu at sicrhau bod pob ysgol newydd sbon ac estyniadau i adeiladau ysgol presennol yn bodloni safon dylunio sero-net o 2023 ymlaen	Rydym wedi cwmpasu canllaw dylunio carbon isel fel y gall pob datblygiad newydd ar draws y ddinas fod yn barod erbyn hydref 2021. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod technoleg newydd yn cael ei gwreiddio'n llwyddiannus a bod cyllid i wneud hynny
4 Newid Ymddygiad a Pholisi	Rydym yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i ddatblygu ymgyrch newid ymddygiad a strategaeth ymgysylltu ledled y ddinas i alluogi trigolion y ddinas gefnogi'r broses o drosglwyddo i economi carbon isel. Rydym yn ymgorffori CUB yn y cwricwlwm newydd i Gymru ledled Caerdydd i gefnogi disgyblion i archwilio materion cynaliadwyedd, newid yn yr hinsawdd a dewisiadau ynni.	Lobïo llunwyr polisi'r Llywodraeth i gynyddu lefel yr uchelgais yn y polisïau a'r pwerau rheoleiddio ar gyfer adeiladau newydd, er mwyn ymateb i'r heriau o sicrhau Dinas Carbon Niwtral mewn argyfwng hinsawdd byd-eang. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ehangach y ddinas i gefnogi newid ymddygiad yn ein hagweddau at effeithlonrwydd ynni.

Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth Un Blaned

Ni ellir tanbrisio'r rôl sydd gan seilwaith gwyrdd o ran amddiffyn byd natur a lliniaru yn erbyn newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo ac rydym yn cydnabod y gwerth sylweddol mewn nid yn unig cynnal a chadw, ond gwella Seilwaith Gwyrdd ledled y ddinas.

Mae asedau treftadaeth naturiol Caerdydd yn hanfodol i gymeriad, natur unigryw ac ymdeimlad o le'r ddinas yn ogystal ag yn darparu gwasanaethau hanfodol yr ydym yn dibynnu arnynt.

Mae seilwaith gwyrdd yn ymwneud â mannau gwyrdd amlswyddogaethol a chysylltiedig sy'n gwneud y defnydd gorau o'r tir - ac ar yr un pryd yn cynnig man gwyrdd agored i bawb, gan helpu bywyd gwyllt i ffynnu a chynnig ystod eang o fuddion economaidd, iechyd a chymunedol. Gall amrywio o ran maint o erddi preifat ac ymylon ffyrdd i goetiroedd a mannau agored eang.

Mae seilwaith gwyrdd yn helpu i fynd i'r afael â llawer o'r problemau cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â bywyd trefol a dylid ei werthfawrogi gymaint â seilwaith adeiledig 'llwyd' fel ffyrdd ac adeiladau.

Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth Un Blaned

Yr hyn oedd gennych chi i'w ddweud

- Gwnaethoch bleidleisio dros "Gynyddu gorchudd coed yn y ddinas o 19% i 25%" fel y cam gweithredu â'r flaenoriaeth uchaf ar gyfer y pwnc hwn.
- Yn ail yn ôl y cyhoedd oedd "adolygu sut mae tir yn cael ei werthfawrogi i gyfrif am fioamrywiaeth a dal carbon ochr yn ochr â ffactorau prisiau tir traddodiadol" gyda'r fantais o greu mannau gwyrdd newydd yn hytrach na datblygiadau tai.
- awgrymodd arolwg pobl ifanc hefyd yn gryf fod angen mwy o goed a dad-ddofi tir ochr yn ochr â gwarchod coetiroedd gwerthfawr.
- Mae'r strategaeth yn gofyn am gryfhau o ran argyfwng bioamrywiaeth.
- Hoffech chi weld mwy o fannau gwyrdd yng Nghaerdydd gan gynnwys 'parciau bychain' a choridorau gwyrdd yn ogystal â dad-ddofi tir a chyfyngu effaith datblygwyr ar fannau gwyrdd.
- Hoffech chi weld Caerdydd yn dod yn Ddinas Parc Cenedlaethol.
- Mae pobl ifanc yn credu bod gerddi fertigol ar goll o gynlluniau'r strategaeth.
- Adolygu opsiynau ar gyfer cyflwyno rhaglen Warden Coed, a reolir gan grwpiau gwyrdd lleol yng Nghaerdydd, sy'n neilltuo coed â Gorchmynion Diogelu Coed (GDCau) i berson penodol a fydd yn cael gwybod am geisiadau cynllunio sy'n gysylltiedig â'r coed hynny, gan roi cyfle am eiriolaeth yn ystod y broses gynllunio.
- Rydych chi eisiau rhagor o fanylion am sut, ble a phryd y bydd y 'Fferm Goed Drefol' yn cael ei datblygu.
- Rydych chi am weld byd natur a bywyd gwyllt yn cael eu hadfer, gan gynnwys ardaloedd glas a gwyrdd; mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr amgylchedd dŵr yn darparu cyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth.

> **"Mae rhai pethau yn y byd na allwn eu newid- disgyrchiant, entropi, cyflymder golau, a'n natur fiolegol sy'n gofyn am aer glân, dŵr glân, pridd glân, ynni glân a bioamrywiaeth ar gyfer ein hiechyd a'n lles. Nid ydynt yn anghyfnewidiol a gallwn eu newid. Nid yw'n gwneud synnwyr i godi economeg uwchlaw'r biosffer"**
>
> DR DAVID SUZUKI

Caerdydd Un Blaned

Cynllun Gweithredu Caerdydd Un Blaned
Medi 2021

Uchelgais: Graddfa a Chyflymder yr Her

I ddod yn Garbon Niwtral erbyn 2030, mae angen i ni hefyd ail-flaenoriaethu seilwaith gwyrdd y ddinas, gan sicrhau bod hyn yn cael ei werthfawrogi'n briodol am yr effaith a ddaw yn ei sgil ar fioamrywiaeth, gwanhau dŵr, dal a storio carbon ac addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Gan ddefnyddio dull gweithredu cydgysylltiedig, gallwn greu dinas sydd â chyfoeth o fioamrywiaeth a mannau gwyrdd defnyddiol a chynhyrchiol. Nodir isod y meysydd ffocws allweddol y mae'r Cyngor yn rhagweld y byddant yn cael effaith ystyrlon ar ein hallyriadau ac mae ein hymrwymiadau i gyflawni hyn wedi'u nodi isod ac fe'u nodir yn ein cynllun gweithredu deinamig a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed.

> **"Rydym yn bwriadu cynyddu'r gorchudd coed trefol o 19% i 25% erbyn 2030"**

PRIF FEYSYDD FFOCWS	EIN HYMRWYMIAD	
	Cyngor	**Y Ddinas -** Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sbarduno newid ar draws y ddinas gan gynnwys:
1 Gwyrddio'r Ddinas	Byddwn yn cynyddu Gorchudd Coed Trefol o 19% i 25% erbyn 2030 drwy ein Rhaglen Aml-brosiect Coed Caerdydd. Byddwn yn sefydlu planhigfa goed fechan, leol yn Fferm y Fforest. Byddwn yn datblygu Strategaeth Coed Trefol, Strategaeth Pridd ac astudiaeth ddichonoldeb defnyddio pren. Byddwn yn ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd wrth blannu coed newydd. Byddwn yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Adfer Gwyrddach, Tecach a Chryfach gan sicrhau bod mannau a nodweddion gwyrdd newydd wedi'u cysylltu'n dda, eu hintegreiddio a'u rheoli'n briodol. Byddwn yn cyflwyno cynlluniau Waliau Gwyrdd a gerddi fertigol, yn enwedig mewn ardaloedd sydd ag ansawdd aer gwael ac yn cyflwyno meysydd chwarae bwytadwy i ysgolion.	Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ledled y ddinas, busnesau cyhoeddus a phreifat, a gwirfoddolwyr i nodi tir ar draws y ddinas ar gyfer plannu coed ac arferion rheoli tir yn gynaliadwy a chyflwyno'r rhaglen plannu coed. Byddwn yn gweithio gyda gwirfoddolwyr, ysgolion a grwpiau cymunedol i ddatblygu a gweithredu ein cynlluniau plannu coed ac yn ceisio datblygu cyfleoedd pellach yn y maes hwn. Byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau naturiol lleol. Byddwn yn adolygu ein dull o blannu coed newydd a'r canllawiau cynllunio, er mwyn sicrhau gwydnwch o fewn seilwaith gwyrdd ledled y ddinas. Bydd hyn yn cynnwys dewis rhywogaethau priodol, effaith plâu a chlefydau, newid yn yr hinsawdd a phwysigrwydd tarddiad lleol. Byddwn yn gweithio gyda dinasyddion a busnesau lleol i ystyried sut y gellir defnyddio gerddi a mannau gwyrdd preifat i gefnogi a chysylltu bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd y ddinas Bydd y Bartneriaeth Natur Leol yn parhau i ddarparu cyfleoedd pellach i osod y nodweddion hyn ar draws ystâd y Cyngor a thu hwnt.
2 Adolygu sut y rhoddir gwerth ar dir	Gan adeiladu ar ein hadroddiad i-Tree diweddar sy'n rhoi gwerth ar ein coed trefol a'n hastudiaeth mapio Cysylltedd Cynefinoedd, byddwn yn ystyried sut y gellir rhoi gwerth ar yr holl dir i gyfrif am fioamrywiaeth a dal carbon ochr yn ochr â dadansoddiad traddodiadol o bris tir. (Cyfrif cyfalaf naturiol).	Byddwn yn ystyried ac yn gweithredu'r fethodoleg fwyaf priodol i roi gwerth ar gyfalaf naturiol sy'n cyd-fynd â dal a storio carbon Llywodraeth Cymru a manteision ehangach o ran natur.
3 Gwarchod a gwella tir a natur	Byddwn yn datblygu dull mwy cyfannol a chydgysylltiedig o wneud y defnydd gorau o'n hasedau tir a'r amgylchedd naturiol mewn ffordd sy'n diogelu'r biosffer ac yn sail i iechyd a lles pawb. Byddwn yn sicrhau bod y CDLl newydd yn mynd i'r afael â diogelu bioamrywiaeth a'r seilwaith gwyrdd a glas sy'n cefnogi'r amgylchedd naturiol. Byddwn yn edrych ar greu mapiau stoc a chyfle ar gyfer dal a storio carbon, ansawdd dŵr, rheoli llifogydd naturiol, ansawdd aer, ynysoedd gwres trefol a llygredd sŵn. Rydym yn cydnabod ac yn croesawu pwysigrwydd Partneriaeth Natur Leol Caerdydd fel fforwm ar gyfer cysylltu pobl â natur a chefnogi camau i warchod a gwella tir a natur. Byddwn yn gweithio gydag eraill drwy Bartneriaeth Natur Leol Caerdydd i baratoi a chyflawni'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) ar gyfer Caerdydd.	Byddwn yn datblygu dull mwy cydgysylltiedig o ystyried defnydd tir sy'n ystyried y blaenoriaethau croes sy'n rhoi galwadau ar asedau tir cyfyngedig ac yn gosod y rhain yn erbyn y fethodoleg cyfrif cyfalaf naturiol. Byddwn yn ymgynghori ar y CDLl gyda rhanddeiliaid y ddinas wrth i'r cynlluniau gael eu datblygu. Byddwn yn gweithio gyda CNC a phartneriaid eraill i gefnogi'r broses (yn gysylltiedig â datganiadau ardal). Byddwn yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a WCVA i sicrhau bod y PNL yn parhau i weithredu y tu hwnt i'r dyddiad terfynol presennol ar gyfer cyllid (Mawrth 2022). Byddwn yn parhau i weithio gyda Phartneriaeth Natur Leol Caerdydd i nodi a gweithredu camau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth a pharhau i gyflawni blaengynllun DBGE.
4 Datgan argyfwng bioamrywiaeth	Byddwn yn datgan argyfwng bioamrywiaeth ac yn paratoi Strategaeth Uwchgynllun Seilwaith Gwyrdd Ddinas Gyfan drosfwaol sy'n ymgorffori'r cynllun DGBE ac sy'n gysylltiedig â'r CDLl newydd. Byddwn yn cynnwys bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau a llywodraethu i wella cysylltedd rhwng cynefinoedd ar draws y ddinas Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gasglu a choladu gwybodaeth i greu set ddata sylfaen ar gyfer bioamrywiaeth ar draws y ddinas	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ledled y ddinas i gydweithio ar gynlluniau bioamrywiaeth a chyflawni Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth gyda llunwyr polisïau â'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau o fewn y Cyngor a thu hwnt Drwy'r PNL byddwn yn hyfforddi rhwydwaith o wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda gwaith tirfesur bioamrywiaeth i gyfrannu at gasglu data sylfaenol.

Trafnidiaeth Un Blaned

Mae angen newidiadau radical i'r ffordd yr ydym yn symud o gwmpas y ddinas wrth i ni anelu at Gaerdydd ddi-garbon. Bydd mwy o gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sylweddol ac yn gwella ansawdd yr aer, gan wneud Caerdydd yn lle glanach i fyw a gweithio ynddo, gan ein helpu i fod yn iachach ac yn fwy egnïol.

Cyn COVID-19 roedd tua 100,000 o bobl yn cymudo i Gaerdydd bob dydd – tua 80,000 ohonynt mewn car. Mae gennym gyfle yn awr i ymyrryd a rhoi dewisiadau amgen glân, gwyrdd a chynaliadwy i bobl yn lle teithio mewn car.

> **Cyn COVID-19 roedd tua 100,000 o bobl yn cymudo i Gaerdydd bob dydd – tua 80,000 ohonynt mewn car**

Trafnidiaeth Un Blaned

Yr hyn oedd gennych chi i'w ddweud

- Rydych yn cefnogi'n gryf sefydlu 5 llwybr beicio ar wahân ar draws y ddinas, wedi'u cysylltu â dolen feicio o amgylch canol y ddinas i ffurfio rhwydwaith beicio cwbl ar wahân; gan ei raddio fel rhif un ymysg y camau gweithredu arfaethedig.
- Roedd gweddnewid y ddinas i fod yn fwy addas i feicwyr a gwella ansawdd aer hefyd yn cael ei gefnogi'n gryf gan gynnwys creu parth cerddwyr ar 'strydoedd mawr' allweddol mewn ardaloedd o amgylch y ddinas.
- Mae'r cysyniad o ddinas '15 munud' hefyd o ddiddordeb, sy'n golygu gogwyddo a datblygu cymunedau o fewn radiws o 15 munud (ar droed neu ar feic) o wasanaethau trefol hanfodol.
- Canolbwyntio ar ran allanol y ddinas o ran gwella'r cysylltiadau rhwng y tu allan a'r tu mewn; gellid defnyddio llwybrau beicio gwell ar gyfer cymudo a mwy o ailgynllunio a gwella seilwaith teithio llesol i bawb.
- Cafwyd llawer o sylwadau yn ymwneud â 'gwella trafnidiaeth gyhoeddus/gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn rhatach'. Mae un ymateb ysgrifenedig yn galw am "system docynnau symlach rhwng bysus, trenau a'r nextbike". Dyma un o'r 'mentrau mewn mannau eraill' a nodwyd gan y cyhoedd h.y. mae gan Ffrainc systemau trafnidiaeth integredig sy'n cydnabod y bydd y Metro arfaethedig yn allweddol i leihau allyriadau CO2.
- O ran maes awyr Caerdydd a hedfan yn gyffredinol; mae'r bobl ifanc am weld gostyngiad mewn teithiau hedfan nifer isel; atal hediadau busnes a threthu teithwyr mynych a chyfeiriad yn y strategaeth at effaith y maes awyr.
- Gwell seilwaith gwefru cerbydau trydan a chymhelliant ar gyfer cerbydau gwyrdd.
- Cymorth i wella'r seilwaith cerbydau trydan a chlybiau ceir trydan, yn y drefn honno. Mae un arall yn galw am gynllun clir i sicrhau bod bysus yn dod yn ddi-allyriadau erbyn 2025 ac opsiynau trafnidiaeth drydanol ar gyfer cludo nwyddau 'milltir olaf'.
- Cymorth ar gyfer cymdogaethau traffig isel a tharged lleihau ceir i'w gynnwys yn y strategaeth.
- Cysylltu â Sustrans i godi proffil beiciau e-gargo a gweithio gyda strydoedd byw, gwella cyfleusterau storio a pharcio beiciau ledled y ddinas ac mewn eiddo ar rent.
- Cyflwyno Prosiect Strydoedd Ysgol ym mhob rhan o Gaerdydd.
- Ystyried seilio cost trwyddedau parcio preswyl ar faint ac allyriadau'r cerbyd (mae bwrdeistrefi Llundain yn gwneud hyn) a chafodd system fwy llym ar gyfer trwyddedau parcio ei gynnig yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hefyd fel ffordd o negyddu'r ffaith ei bod yn "rhy hawdd i aelwydydd gael mwy nag un car."

Dechrau arni

Mae gwaith eisoes wedi'i wneud i sicrhau newid moddol tuag at fathau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth. Erbyn hyn mae 1,000 o feiciau mewn 130 o leoliadau ar draws y ddinas.

Rydym wedi gwella rhwydweithiau beicio a cherdded drwy gwblhau Beicffordd gyntaf y ddinas ar hyd Heol Senghennydd i Gilgant St Andrew ac rydym yn gweithio gyda pob ysgol ar gynlluniau teithio llesol.

Mae terfynau cyflymder 20mya wedi'u rhoi ar waith ac mae 18 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan wedi'u gosod ar gyfer preswylwyr.

Mewn ymateb i COVID-19 rydym wedi darparu mwy o le i gerddwyr a bydd llawer o hyn yn cael ei gadw.

Caerdydd Un Blaned

Cynllun Gweithredu
Caerdydd Un Blaned
Medi 2021

Uchelgais: Graddfa a Chyflymder yr Her

Ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd, mae targedau uchelgeisiol ar gyfer newid moddol ar gyfer teithio i'r gwaith. Os byddwn yn cyflawni'r targedau hyn, ochr yn ochr ag atebion cymudo mwy cynaliadwy i mewn i'r ddinas ac o'i hamgylch, byddwn yn cael effaith gadarnhaol enfawr ar allyriadau carbon o drafnidiaeth.

Ond i fynd â hyn ymhellach fyth, nodir isod y meysydd ffocws allweddol y mae'r Cyngor yn rhagweld y byddant yn cael effaith ystyrlon ar ein hallyriadau ac mae ein hymrwymiadau i gyflawni hyn wedi'u nodi isod ac fe'u nodir yn ein cynllun gweithredu deinamig a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed.

> **Rydym am ddyblu nifer y bobl sy'n beicio ac yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2030**

PRIF FEYSYDD FFOCWS	Cyngor	EIN HYMRWYMIAD **Y Ddinas -** Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sbarduno newid ar draws y ddinas gan gynnwys:
1 Gweithredu Gweledigaeth Drafnidiaeth Caerdydd ar gyfer 2030	Rydym yn gweithio tuag at y targedau uchelgeisiol a nodir yn y papur gwyn Trafnidiaeth i flaenoriaethu trafnidiaeth lesol a chynaliadwy fel dulliau teithio a ffefrir ledled y ddinas i helpu i gyflawni ein targedau lleihau carbon o drafnidiaeth. Rydym yn paratoi Strategaeth Fysus a fydd yn adeiladu ar y gwaith partneriaeth drwy'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysus i fuddsoddi mewn bysus a diwygio'r rhwydwaith bysus i wneud y gwasanaethau'n fwy deniadol a dibynadwy. Rydym yn paratoi Strategaeth Trafnidiaeth Integredig a fydd yn darparu llwyfan i gymell a hyrwyddo newidiadau mewn ymddygiad teithio yn uniongyrchol, gwneud y rhwydwaith yn fwy effeithlon a llywio penderfyniadau buddsoddi mewn trafnidiaeth yn well. Rydym yn adeiladu llwybrau beicio integredig ar draws ac o amgylch y ddinas i helpu trigolion i deithio'n ddiogel ar feiciau ledled y ddinas. Rydym yn cynnal astudiaeth gychwynnol i asesu a ddylid cyflwyno cynllun rheoli tagfeydd a allai gynnwys codi tâl o ryw fath ar ddefnyddwyr ffyrdd i fynd i'r afael â phroblemau tagfeydd yn y ddinas ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a chefnogi mesurau trafnidiaeth cynaliadwy ymhellach.	Rydym yn adeiladu ac yn cynllunio dulliau mwy cynaliadwy o deithio, gan ganolbwyntio ar annog mwy o gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a lleihau dibyniaeth ar deithiau ceir fel y nodir yn y Weledigaeth Drafnidiaeth. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddarparu'r seilwaith sy'n rhoi'r hyder i ddinasyddion a chymudwyr symud oddi wrth geir i ddulliau cynaliadwy eraill o deithio. Byddwn yn gweithio gyda'r ddinas i hyrwyddo'r cyfle am newid moddol a chymhellion a chefnogaeth i hwyluso'r newid hwn. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys ysgolion a chyrff elusennol i hyrwyddo teithio llesol ledled y Ddinas.
2 Byddwn yn disodli holl gerbydau fflyd bach y Cyngor gyda cherbydau ULEV erbyn 2025 a lle y bo'n ymarferol yr holl fflyd sy'n weddill erbyn 2030	Rydym yn cyflymu'r broses o gyflwyno cerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) i gymryd lle fflyd y Cyngor a gweithio gyda staff i nodi mesurau i leihau milltiredd busnes yn y dyfodol. Yn dilyn grant o £300,000 gan Lywodraeth Cymru, rydym bellach yn gosod seilwaith cerbydau trydan mewn lleoliadau allweddol yn ein hystâd i hwyluso'r broses o drosglwyddo i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV). Adolygiad cyflawn o arferion gwaith ar ôl COVID-19 i hwyluso gweithio hyblyg a chwilio am ffyrdd o leihau cymudo a theithio ar gyfer busnes, gan ddefnyddio technoleg yn lle, lle bo hynny'n bosibl.	Gweithio gyda phartneriaid y BGC drwy'r Bwrdd Argyfwng Hinsawdd a'r Brifddinas-ranbarth i ddatblygu un strategaeth gaffael ar gyfer cerbydau ULEV a fydd yn cefnogi'r newid cynyddol mewn cerbydau.
3 Hwyluso newid dinas gyfan i gerbydau teithwyr di-allyriadau erbyn 2030	Rydym yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno a gweithredu seilwaith gwefru ar draws y ddinas a byddwn yn datblygu Strategaeth Cerbydau Trydan, a fydd yn asesu'r galw yn y dyfodol am seilwaith cerbydau trydan ledled y Ddinas.	Byddwn yn gweithio gyda'r ddinas i nodi cyfleoedd am seilwaith gwefru a chymhellion i symud i gerbydau allyriadau isel iawn.
4 Sicrhau bod pob tacsi a bws yn rhai allyriadau isel erbyn 2027	Byddwn yn parhau i weithio gyda'r holl gwmnïau bysus sy'n gweithredu yng Nghaerdydd i nodi a chyfeirio cyfleoedd cyllid grant allanol i gefnogi'r broses o newid i fflyd o fysus ULEV a byddwn yn asesu'r rôl y mae Hydrogen yn debygol o'i chwarae yn y cyfnod pontio hwn. Fel rhan o'n Cynllun Aer Glân, rydym yn cynnig grantiau i yrwyr/ gweithredwyr tacsis sy'n ymrwymo i drwyddedu cerbydau trydan er mwyn trosglwyddo Fflyd Tacsis Caerdydd. Rydym hefyd yn prydlesu tacsis trydan sy'n 100% hygyrch i gadeiriau olwyn yn uniongyrchol i yrwyr er mwyn cefnogi'r broses o drosglwyddo tacsis hygyrch i gerbydau trydan. Mewn partneriaeth â'r Prifddinas-Ranbarth, rydym yn gosod seilwaith gwefru ar draws y ddinas i sicrhau bod gan yrwyr tacsis yr hyder i newid i ULEV.	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid sector preifat a sector cyhoeddus ledled y ddinas i adolygu'r cymhellion i'r sector tacsis a bysus newid i gerbydau allyriadau isel iawn fel y datblygir yn ein cynllun aer glân. Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais genedlaethol i gael fflyd o fysus a thacsis di-allyriadau (pibell fwg) erbyn 2028. Atgyfnerthwyd hyn ymhellach yng Nghynllun Aer Glân newydd Cymru a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ar 6 Awst 2020.
5 Gweithio gyda phartneriaid i helpu i leihau effaith carbon cludiant	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i asesu datblygiad gorsaf danwydd carbon isel aml-fector ger y derfynfa cludo nwyddau ar y rheilffyrdd i gefnogi datgarboneiddio'r diwydiant cludo nwyddau yng Nghaerdydd.	Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol ledled y ddinas, gan gynnwys y sectorau busnes, cyhoeddus a thrafnidiaeth, i ddatblygu strategaeth gyflawni milltir olaf gan ganolbwyntio ar allyriadau di-garbon.
6 Hwyluso Clybiau Ceir Trydan	Rydym yn mynd i gaffael gweithredwr cyflenwi newydd i ail-lansio cynllun y Clwb Ceir ledled y ddinas gyda'r nod o leihau'r angen i berchen ar geir preifat yn y Ddinas. Yr uchelgais yw y bydd y Clwb Ceir yn cael ei ddatblygu'n llawn erbyn 2025.	Rydym yn sicrhau partner i ddarparu clwb ceir y bydd rhanddeiliaid ledled y ddinas yn gallu bod yn rhan ohono ac elwa ar y buddion.

Gwastraff Un Blaned

Mae newid yn yr hinsawdd wedi cyflymu'r angen i ddod o hyd i fesurau i leihau a rheoli'r gwastraff a grëwn. Drwy leihau cynhyrchiant gwastraff a thrwy ailgylchu'r gwastraff a gynhyrchir yn y ffordd gywir, gallwn leihau ein hôl troed carbon. Mae hyn yn golygu lleihau'r gwastraff a gynhyrchwn ac ailgylchu drwy 'ddolen gaeedig', lle defnyddir eitemau eto at eu diben gwreiddiol neu mewn ffordd sy'n ychwanegu gwerth, a elwir yn 'uwchgylchu'.

Caerdydd yw'r ddinas fawr graidd orau yng ngwledydd Prydain ar gyfer ailgylchu, gydag ailgylchu gwastraff y cartref wedi cynyddu o 4% i 58% ers 2001. Wrth i Gaerdydd dyfu, fodd bynnag, bydd rhagor o bobl yn dod i fyw yn y ddinas, bydd rhagor o fusnesau yn dod yma a bydd rhagor o bobl yn ymweld â'r lle.

Bydd hyn yn golygu mwy o wastraff. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn parhau â'r gwelliannau mewn cyfraddau ailgylchu ac yn sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy.

Yr hyn oedd gennych chi i'w ddweud

- Rydych am leihau gwastraff stryd, gosod biniau priodol a dirwyon llymach am ollwng sbwriel.
- Mwy o fanylion am leihau defnydd er mwyn lleihau gwastraff.
- Rydych am weld targed y Cyngor o ddim gwastraff trefol erbyn 2030 ac yn cefnogi prosiect Dim Gwastraff Ysgolion Cymru.
- Cyflwyno cynllun dychwelyd ernes (poteli/caniau) fel modd o leihau sbwriel ar y stryd a pholisi gwyrddach sy'n ymwneud â chwpanau plastig.
- Mae gostyngiad/gwaharddiad ar blastigau untro yn rhywbeth y mae'r ymgynghoriad gyda'r bobl ifanc wedi galw amdano ynghyd â chael gwared ar blastigau untro o leoliadau'r Cyngor fel y prif gam gweithredu o'r rhestr arfaethedig.
- Codi ymwybyddiaeth o gynwysyddion diodydd untro a'r angen i weithio gyda gwerthwyr diodydd poeth i gynyddu'r defnydd o gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio.
- Ni ellir cael gwared ar blastigau'n gyfan gwbl gan eu bod yn hanfodol i rai pobl ag anableddau.
- Mae'r bobl ifanc am weld mwy o ailgylchu ac mae'r cyhoedd yn gosod camau arfaethedig y Cyngor i wella'r cyfathrebu ynghylch rheolau ailgylchu/gwastraff preswylwyr yn ail ar y rhestr o gamau gweithredu.
- Mae angen i'r Cyngor ymrwymo i wneud ailgylchu'n haws i breswylwyr, gan gynnwys sefydlu banciau ailgylchu ar gyfer eitemau fel Tetrapack ac ymrwymo i ailgylchu o leiaf 70% o wastraff cartref erbyn 2030.
- Mae sefydliadau am roi'r gorau i gymeradwyo llosgyddion a dywedodd un ei bod am i'r ffatri bresennol gael ei diddymu'n raddol.

Dechrau arni

Fel rhan o'n newid parhaus o waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi i drin ac ailgylchu gwastraff, rydym wedi darparu, mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos, safle Troi Gwastraff yn Ynni a chyfleuster Trin Gwastraff Organig sy'n trin bwyd a gwastraff gwyrdd ar wahân.

Mae'r cyfleuster arloesol hefyd yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gyda gwrteithiau cynaliadwy yn cael eu hailgylchu i amaethyddiaeth leol.

Rydym wedi parhau i weithio gyda thrigolion drwy gefnogi grwpiau gwirfoddol 'Cadw'n Daclus' newydd, cynyddu oriau casglu sbwriel, cyflwyno planwyr cymunedol a sefydlu partneriaeth gyda Cadwch Gymru'n Daclus. Helpodd ein hymgyrch 'Carwch Eich Cartref' gysylltiedig i lywio llwyddiant, gydag ymgysylltu targedig i annog ailgylchu ar draws y ddinas.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid eraill i wella ailgylchu. Er enghraifft, mae ein partneriaeth ailddefnyddio eitemau â Sefydliad Prydeinig y Galon wedi arwain at osod cynwysyddion llongau yng Nghanolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref Ffordd Lamby a Bessemer, sy'n ei gwneud yn hawdd i drigolion roi eitemau cartref o ansawdd da fel soffas, cadeiriau breichiau a dodrefn ystafell wely.

> **"Rydym am ailgylchu 70% o wastraff y ddinas erbyn 2025, gan ddod yn ddinas ddiwastraff erbyn 2050"**

Caerdydd Un Blaned

Uchelgais: Graddfa a Chyflymder yr Her

Mae Cymru'n anelu at fod yn genedl Ddiwastraff erbyn 2050 ac mae Caerdydd ar flaen y gad ar y daith hon. Fodd bynnag, mae angen i ni gyflymu ein hymdrechion i gyrraedd targedau statudol:

- **Ailgylchu 70% erbyn 2025**
- **Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2025 (Tirlenwi sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o allyriadau gwastraff)**
- **Dim gwastraff erbyn 2050**

Ein huchelgais yw hybu cyfraddau ailgylchu drwy ganolbwyntio ar: Addysg mewn ysgolion, ymgysylltu â'r gymuned a newid ymddygiad ac mae angen i ni herio'r ffordd y darperir gwasanaethau ar hyn o bryd, sut mae unigolion a busnesau'n cynhyrchu ac yn rheoli gwastraff a gweithio ar gynlluniau i wella cyfraddau ailgylchu. Nodir isod y meysydd ffocws allweddol y mae'r Cyngor yn rhagweld y byddant yn cael effaith ystyrlon ar ein hallyriadau ac mae ein hymrwymiadau i gyflawni hyn wedi'u nodi isod ac fe'u nodir yn ein cynllun gweithredu deinamig a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed.

> **Ein huchelgais yw hybu cyfraddau ailgylchu drwy ganolbwyntio ar: Addysg mewn ysgolion, ymgysylltu â'r gymuned a newid ymddygiad**

PRIF FEYSYDD FFOCWS	EIN HYMRWYMIAD	
	Cyngor	**Y Ddinas -** Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sbarduno newid ar draws y ddinas gan gynnwys:
1 Newid ymddygiad rheoli gwastraff a sut rydym yn rheoli gwastraff	Byddwn yn llunio Strategaeth i ailgylchu 70% o wastraff trefol erbyn 2025 Byddwn yn ymgysylltu â thrigolion a chymunedau i annog trigolion i leihau gwastraff ac ailgylchu mwy ar draws y ddinas. Byddwn yn gweithio gyda phob adran ar draws y Cyngor i ymgorffori egwyddorion lleihau gwastraff ac economi gylchol Byddwn yn gweithio gyda chymunedau drwy'r cynllun Carwch Eich Cartref i helpu i fynd i'r afael â phroblemau gadael sbwriel a chydlynu cynlluniau codi sbwriel cymunedol Rydym wedi cynyddu'r math o ddeunyddiau y gallwn eu casglu a'u hailgylchu yn ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGCau)	Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i fwydo i mewn i ymgynghoriadau a helpu i weithredu deddfwriaeth sy'n dod i'r amlwg, megis y Rheoliadau Gwastraff Busnes, a fydd yn cymell gwahanu gwastraff busnes i'w ailgylchu. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio eitemau. Byddwn yn parhau i gefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol i ailgylchu mwy a lleihau gwastraff, fel caru bwyd, casáu gwastraff. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid y ddinas i hwyluso egwyddorion economi gylchol drwy gaffael, lleihau gwastraff a phennu deunyddiau crai a wneir o gynnwys wedi'i ailgylchu, i sbarduno'r galw a'r farchnad ar gyfer deunyddiau ailgylchu. Byddwn yn darparu biniau ychwanegol mewn parciau ac yn edrych ar ffyrdd o wahanu sbwriel i'w ailgylchu (cerbydau i gasglu sbwriel a godwyd ar wahân - cerbydau â chydrannau ar wahân). Byddwn yn cyflwyno cyfleusterau ailgylchu cymunedol mewn canolfannau ledled y ddinas i'w gwneud yn haws ailgylchu deunyddiau nad ydynt yn cael eu casglu wrth ymyl y ffordd ar hyn o bryd.
2 Datgarboneiddio'r fflyd wastraff erbyn 2030	Disodli'r holl fflyd wastraff gyda Cherbydau Allyriadau Isel lawn erbyn 2030	
3 Ystyried systemau arloesi gwastraff	Byddwn yn adolygu systemau arloesi gwastraff fel cywasgwyr gwastraff bwyd neu beiriannau treulio ar gyfer holl ddatblygiadau newydd y Cyngor Rydym yn treialu synwyryddion biniau mewn biniau cymunedol i fonitro cyfraddau llenwi ac ailgylchu a gwella effeithlonrwydd casgliadau.	Annog systemau arloesi gwastraff ar gyfer datblygiadau newydd fel rhan o'r broses gynllunio drwy adolygu'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA).
4 Gwaith i ddileu plastigau untro	Byddwn yn dileu plastig untro diangen ac yn hwyluso'r broses o symud i economi fwy cylchol Byddwn yn sicrhau bod arferion caffael y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch plastigau untro.	Byddwn yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno deddfwriaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch plastigau untro: Wrth gydymffurfio â'r cynllun dychwelyd ernes a'r ddeddfwriaeth cyfrifoldeb cynhyrchwyr, bydd busnesau'n cael eu cymell i ddod o hyd i ddewisiadau amgen i gwpanau plastig.

Bwyd Un Blaned

Mae cynhyrchu bwyd, ei brosesu a'i gludo, ochr yn ochr â chael gwared ar fwyd a wastraffwyd mewn safleoedd tirlenwi, yn cynhyrchu allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd. Gall yr amgylchedd elwa ar fwyd tymhorol, lleol a ffres, sydd ag ôl troed carbon is na bwyd wedi'i brosesu a bwyd sy'n cael ei gludo'n hirach. Gall newid y cymysgedd o fwydydd yr ydym yn eu bwyta, lleihau allyriadau a bwydydd sy'n ddwys o ran tir, megis cig a llaeth, a chyflwyno bwydydd o blanhigion yn eu lle, fod o fudd i gynaliadwyedd ein systemau amaethyddol hefyd.

Er nad yw'n realistig i ddinas o faint Caerdydd fod yn gwbl hunangynhaliol o ran ei chynnyrch, mae cyfle clir ac uchelgais ddatblygol i ni gynyddu'r symiau o fwyd a gynhyrchir yn lleol.

Mae angen bwyd ar bob un ohonom ac felly mae'n bosibl i bob un ohonom ymgysylltu drwy wneud dewisiadau bach iachach a mwy cynaliadwy.

Bwyd Un Blaned

Yr hyn oedd gennych chi i'w ddweud

- Rydych wedi galw am sicrhau bod mwy o randiroedd a darpariaeth tyfu bwyd ar draws y ddinas a'r potensial i gynnyrch o'r rhandiroedd fod ar gael i'r cyhoedd.
- Dylai'r Cyngor ddarparu arian a chyngor i gefnogi prosiectau tyfu bwyd cymunedol.
- Byddai mwy o farchnadoedd lleol sy'n gwerthu cynnyrch lleol yn helpu trigolion i fyw bywyd mwy carbon isel.
- Mae angen i unrhyw gynllun bwyd dinesig fabwysiadu dull rhanbarthol a gweithio y tu hwnt i ffiniau Caerdydd a gweithio gyda llywodraethau lleol eraill, Llywodraeth Cymru, busnesau, grwpiau cymunedol ac asiantaethau perthnasol eraill (NFU ac ati).
- Byddai cynllun tyfu bwyd clir yn helpu busnesau i leihau eu heffaith ar garbon.
- Dylai'r Cyngor ymgysylltu ag ysgolion i dyfu rhywfaint o'u bwyd eu hunain.

Mae dylanwad y Cyngor ar fwyd yn y ddinas yn eang, o ddarparu gwasanaethau arlwyo i gynnal digwyddiadau mawr a sicrhau hylendid bwyd.

Mae gennym hefyd berthynas agos â chwaraewyr allweddol eraill ledled y ddinas, sy'n golygu bod camau cadarnhaol eisoes yn cael eu cymryd i wella ein heffaith amgylcheddol mewn perthynas â bwyd.

Er enghraifft, mae gan Gaerdydd bartneriaeth fwyd leol, Bwyd Caerdydd, a thrwy hon mae Caerdydd eisoes wedi ennill statws Lle Bwyd Cynaliadwy Arian.

Rydym hefyd yn perthyn i'r rhwydwaith 'Caerdydd ar Blât', sy'n cefnogi unigolion a grwpiau o bobl i dyfu eu bwyd a'u blodau eu hunain.

> **"Rydym wedi ennill Statws Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Arian erbyn 2021 a thu hwnt i hynny, Aur"**

Caerdydd Un Blaned

Cynllun Gweithredu
Caerdydd Un Blaned
Medi 2021

Uchelgais: Graddfa a Chyflymder yr Her

Er na fydd Caerdydd byth yn gallu dod yn gwbl hunangynhaliol o ran cynhyrchu bwyd, gallwn wneud mwy i leihau'r effaith y mae ein dewisiadau bwyd yn ei chael ar yr amgylchedd a dod yn ddinas fwyd fwy cynaliadwy.

Mae adroddiad diweddar gan y Ganolfan Dechnoleg Amgen, Prydain Ddi-garbon: Ateb yr Argyfwng Hinsawdd, yn modelu sut, drwy newid dietegol, lleihau gwastraff bwyd ac arferion amaethyddol gwell, y gallem ddarparu deiet iach a chynaliadwy i boblogaeth gyfan y DU.

Mae'r newid dietegol enghreifftiol yn cynnwys llawer llai o brotein o gig a llaeth a mwy o ffynonellau planhigion fel ffa, cnau, grawnfwydydd a llysiau. Mae hyn yn golygu ystyried ffynhonnell bwyd a newid i lai o gynhyrchion cig a llaeth (ond rhai o ansawdd gwell) a gynhyrchir yn lleol.

Nodir isod y meysydd ffocws allweddol y mae'r Cyngor yn rhagweld y byddant yn cael effaith ystyrlon ar ein hallyriadau ac mae ein hymrwymiadau i gyflawni hyn wedi'u nodi isod ac fe'u nodir yn ein cynllun gweithredu deinamig a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed.

> **Mae prosesu, storio a chludo bwyd i gyd yn cynhyrchu allyriadau carbon, ond gellir lleihau'r rhain drwy brynu cynnyrch ffres a gynhyrchir yn lleol**

PRIF FEYSYDD FFOCWS	EIN HYMRWYMIAD	
	Cyngor	**Y Ddinas -** Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sbarduno newid ar draws y ddinas gan gynnwys:
1 Cyflwyno Cynllun Tyfu Bwyd	Rydym yn paratoi cynllun tyfu bwyd ac mae cynllun peilot o dir mapio yn Nhrelái, Caerau, Sblot a Glan-yr-Afon ar gyfer tyfu bwyd cymunedol wedi dechrau. Rydym wedi datblygu cytundebau trwydded a phrydlesu drafft i alluogi grwpiau cymunedol a mwy o fentrau masnachol i ddefnyddio tir sy'n eiddo i'r Cyngor gan gynnwys cytundeb i grwpiau cymunedol ddefnyddio rhandiroedd	Byddwn yn gweithio gyda grwpiau cymunedol ledled y ddinas i ddatblygu cynlluniau tyfu bwyd cymunedol lleol. Mae proses ar waith dros dro i grwpiau cymunedol gael mynediad i safleoedd yn achlysurol tra bod y Cynllun Tyfu yn cael ei ddatblygu.
2 Datblygu Cyfyngiadau ar Ddiwylliant Bwyd Cyflym	Ym mis Mehefin 2021 cwblhawyd y gwaith o fapio siopau bwyd ffres ar draws y ddinas. Cynhyrchwyd mapiau sy'n dangos ardaloedd y tu allan i bellter cerdded 10 munud o siop bwyd ffres i ddangos ardaloedd o ddiffyg yn y ddinas. Y cam nesaf yn y gwaith mapio fydd cwblhau'r asesiad ansoddol o'r ystod o gynhyrchion bwyd ffres sydd ar gael ym mhob un o'r siopau (adnodd ar y gweill). Byddwn yn ymchwilio i arfer gorau ledled y DU ar bolisi cynllunio a dulliau ehangach o ymdrin ag anialwch bwyd ffres er mwyn pennu dulliau o ddatblygu'r CDLI Newydd.	Bydd y dystiolaeth fapio yn bwydo i gam nesaf y prosiect a fydd yn cynnwys gweithio gyda chymunedau lleol i sefydlu prosiectau i wella'r mynediad at fwyd ffres (e.e. pantrïoedd cymunedol, prosiectau tyfu) mewn ardaloedd y nodwyd bod yna ddiffyg mynediad at fwyd ffres.
3 Newid Arferion Caffael y Cyngor ei Hun	Sicrhau bod yr holl fwyd a weinir yn dod o ffynonellau lleol, tymhorol a chynaliadwy	Rydym wedi drafftio cais i Gronfa Her y Ddinas-Ranbarth (ar y cyd â Chyngor Sir Fynwy) ynghylch sut y gallwn gyflymu'r gwaith o ddatblygu cadwyni cyflenwi bwyd lleol cynaliadwy ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r potensial am ganolfan fwyd i gyflawni hyn.
4 Gwella Diwylliant Bwyd Ysgolion	Byddwn yn cefnogi ysgolion i fabwysiadu dull gweithredu ysgol gyfan o ymdrin â bwyd drwy'r cwricwlwm, caffael, prydau ysgol, rhaglenni bwyd yn ystod y gwyliau a thyfu bwyd ac ati. Mae'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol ar y gweill yn 2021 ac yn cael ei chyflwyno i'r nifer fwyaf o blant erioed yn y ddinas – 29 o ysgolion i gymryd rhan gyda 42 o garfanau sy'n galluogi 1,680 o blant i elwa o'r cynllun. Dyma'r cynllun mwyaf hyd yma yng Nghaerdydd a hefyd yng Nghymru.	Byddwn yn gweithio gyda phlant a rhanddeiliaid y ddinas i hyrwyddo manteision dewisiadau bwyd iach
5 Datblygu Fframwaith Bwyd Cynaliadwy	Byddwn yn diffinio ac integreiddio nodau, trothwyon a thargedau bwyd cynaliadwy yn erbyn holl Weithrediadau'r Cyngor.	Ar hyn o bryd rydym yn drafftio Safonau Bwyd Cynaliadwy mewn partneriaeth â dietegwyr y GIG.

Dŵr Un Blaned

O ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, disgwylir i'r cylch dŵr newid yn sylweddol. Mae patrymau newidiol byd-eang o ran argaeledd dŵr, gyda rhewlifau'n crebachu a phatrymau glawio newidiol, yn cynyddu'r tebygolrwydd o sychder a llifogydd. Rhaid i ddinasoedd arfordirol a basn afon, fel Caerdydd, ymateb i'r bygythiad, yn enwedig y posibilrwydd o fflachlifoedd a lefelau cynyddol y môr.

Mae angen dull integredig o ymdrin â dŵr, y biosffer a llifau amgylcheddol i ddyfeisio systemau cynaliadwy sy'n ein galluogi i arafu'r newid yn yr hinsawdd, ein diogelu rhag eithafion ac addasu i'r anochel ar yr un pryd.

Er yr her, mae cyfleoedd hefyd i ddatblygu ffyrdd newydd o gyflenwi dŵr ar y cyd, trin dŵr, gwneud ynni o ddŵr a sicrhau diogelwch dŵr.

Dŵr Un Blaned

susdrain
Awards Winner 2020

Yr hyn a ddwedoch wrthym

- Rydych chi'n cefnogi'r camau i "Gynyddu seilwaith gwyrdd ar draws y ddinas i leihau'r perygl o lifogydd".
- Rydych yn cefnogi'n gryf y camau arfaethedig o ran sicrhau bod "Datblygiadau newydd yn cynnwys systemau draenio cynaliadwy".
- Dylai'r Cyngor weithio'n agosach gyda CNC a Dŵr Cymru ar gynlluniau draenio trefol mwy cynaliadwy fel Grangetown Werddach fel rhan o 'Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Glas'.
- Hoffech chi weld defnydd cyfartalog o ddŵr y pen/aelwyd yn cael ei feincnodi ar gyfer Caerdydd a tharged defnydd yn y dyfodol gyda'r angen am weithredu i leihau'r defnydd i'r lefel hon.
- Mwy o gamau gweithredu ynghylch gweithio tuag at fod yn fwy effeithlon o ran defnyddio dŵr a gallai mesuryddion clyfar helpu.
- Rydych am weld cysylltiad cryfach rhwng newid yn yr hinsawdd a llifogydd, sychder a lefelau môr cynyddol, yn ogystal â defnydd personol o ddŵr ac mae angen gwneud y cysyniad o system ddraenio trefol gynaliadwy yn real i drigolion fel eu bod yn deall y cysylltiad rhwng amgylcheddau naturiol a system ddraenio dda.
- Gallai'r camau Dŵr adeiladu ar brosiectau fel Grangetown Werddach ac ehangu i newid ymddygiad, gwell defnydd o dechnoleg a gwella cynlluniau ôl-osod.
- Dylai Caerdydd ddod yn Ddinas Ail-lenwi lle mae mynediad i ddŵr yfed am ddim yn gyffredin ar draws y ddinas.

Dechrau arni

Mae nifer o brosiectau eisoes ar y gweill ar reoli'r perygl o lifogydd a chynlluniau draenio cynaliadwy. Mae ein prosiect Grangetown Werddach, sydd wedi ennill gwobrau, yn defnyddio'r technegau draenio cynaliadwy (SDC) ddiweddaraf i ddal, glanhau a dargyfeirio dŵr glaw yn uniongyrchol i Afon Taf, gan efelychu draeniad naturiol.

Dyma'r tro cyntaf i'r technegau hyn gael eu hôl-ffitio i amgylchedd trefol ar y raddfa hon ac mae wedi arwain at dynnu 42,480m² o ddŵr wyneb o'r rhwydwaith dŵr gwastraff cyfun - sy'n cyfateb i 10 cae pêl-droed!

Yn ogystal â darparu cydnerthedd dŵr, mae hyn hefyd yn dileu gofynion ynni sylweddol y byddai eu hangen fel arall i bwmpio dŵr drwodd i waith trin carthion.

Rydym hefyd wedi sefydlu Prosiect Atal Llifogydd yn Rhiwbeina, gan wella'n sylweddol y gallu i wrthsefyll llifogydd yn yr ardal leol, gan ddiogelu mwy na 200 o gartrefi a busnesau.

> **"Rhaid i ddinasoedd arfordirol a basn afon, fel Caerdydd, ymateb i'r bygythiad, yn enwedig y posibilrwydd o fflachlifoedd a lefelau cynyddol y môr"**

Uchelgais: Graddfa a Chyflymder yr Her

Mae patrymau tywydd diweddar wedi tynnu sylw'n sylweddol at effeithiau newid yn yr hinsawdd a phwysigrwydd uchel lliniaru yn erbyn digwyddiadau eithafol, megis llifogydd, ynghyd â sicrhau ein bod wedi addasu i fod yn wydn yn erbyn yr effeithiau.
Fel awdurdod cynllunio, mae angen i ni sicrhau bod pob datblygiad newydd yn bodloni deddfwriaeth Draenio Cynaliadwy (SDCau) Llywodraeth Cymru drwy ein corff cymeradwyo SDCau. Mae cynllunio senarios yn hanfodol, yn enwedig o ystyried y risg o gynnydd yn lefelau'r môr a llif afonydd cynyddol o'r tair afon sy'n torri drwy'r ddinas. Y camau gweithredu canlynol yw ein prif feysydd ffocws sy'n cynnwys adborth o'r ymgynghoriad.

> **Mae patrymau tywydd diweddar wedi tynnu sylw'n sylweddol at effeithiau newid yn yr hinsawdd a phwysigrwydd uchel lliniaru yn erbyn digwyddiadau eithafol, megis llifogydd, ynghyd â sicrhau ein bod wedi addasu i fod yn wydn yn erbyn yr effeithiau.**

PRIF FEYSYDD FFOCWS	EIN HYMRWYMIAD	
	Cyngor	**Dinas -** Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sbarduno newid ar draws y ddinas gan gynnwys:
1 Datblygu Strategaeth Ddŵr / Draenio Cynaliadwy Uchelgeisiol ar gyfer Caerdydd	Rydym am fod y ddinas flaenllaw yn Ewrop ar gyfer Draenio Trefol Cynaliadwy Byddwn yn datblygu Strategaeth Rheoli Dŵr yn Gynaliadwy ledled y Ddinas i roi Caerdydd ar flaen y gad fel Prifddinas Ddŵr. Ymdrin â rheoli, ôl-osod a chyflwyno SDCau, gwanhau dŵr, dal a storio dŵr, Coridorau Glas-Gwyrdd a rheoli a lliniaru llifogydd. Byddwn yn datblygu tîm mewnol traws-swyddogaethol i reoli'r gwaith o gyflawni manteision lluosog rheoli llygredd, atal llifogydd a lles sy'n gysylltiedig â seilwaith gwyrdd, gan sicrhau bod peirianwyr y Ddinas yn garbon-wybodus. Rydym yn adolygu arferion rheoli tir ar draws ystâd y Cyngor; gall cynyddu deunydd organig mewn pridd gynyddu cyfraddau cadw dŵr yn sylweddol.	Byddwn yn gweithio gyda holl randdeiliaid y ddinas i flaenoriaethu draenio cynaliadwy mewn datblygiadau newydd, gan gynnwys prosiectau aml-fudd trefol. Byddwn yn gweithio a chydgysylltu â phob corff chwaraeon i ddatblygu rhaglen i adnewyddu a gwella arwynebau chwarae presennol y Cyngor; gan osod draeniau i leihau gwaith cynnal a chadw a chynyddu oriau gweithredol.
2 Nodi Rhaglen Lleoliadau Lliniaru Llifogydd â Blaenoriaeth	Rydym yn gweithio i ddatblygu amddiffynfeydd rhag llifogydd ledled y ddinas i leihau perygl llifogydd cymunedol ac adnewyddu ein strategaeth perygl llifogydd a'n cynllun rheoli perygl llifogydd fel sy'n ofynnol gan ein dyletswyddau statudol.	Ymgysylltu ymhellach ac yn gyflymach â busnesau presennol a'r gymuned i weld beth y gallent ei wneud gyda'u hadeiladau, gerddi ac ardaloedd lleol i liniaru'r perygl o lifogydd, cadw dŵr a lleihau llif.
3 Cynnydd yn y Seilwaith Gwyrdd Trefol	Cefnogi'r gwaith o gyflwyno seilwaith gwyrdd yn gyflymach ar draws canol y ddinas ac ardaloedd preswyl i helpu i reoli dŵr, gyda'r cyd-fantais o wella ansawdd aer a gwella bioamrywiaeth Byddwn yn mynd ati i wneud y defnydd gorau o'r ddeddfwriaeth SDCau statudol i wella'r seilwaith gwyrdd yn barhaus o fewn datblygiadau presennol a newydd gan gynnwys gerddi glaw, toeau gwyrdd a chynlluniau plannu coed sy'n gwanhau dŵr. Rydym yn creu coridorau gwyrdd/glas trefol newydd i sicrhau manteision lluosog mewn amgylchedd canol dinas.	Gweithio gyda phartneriaid i bwysleisio manteision seilwaith gwyrdd i weithwyr, trigolion a busnesau.
4 Cefnogi Grwpiau Afonydd Caerdydd a grwpiau cymunedol y ddinas i sicrhau bod afonydd, nentydd a gylfiau yn cael eu cadw'n glir o sbwriel	Byddwn yn helpu i gydgysylltu mudiadau gwirfoddol i reoli ein coridorau glas yn rheolaidd (cwrs dŵr ac afonydd).	Annog pob sefydliad i gefnogi a noddi grwpiau amgylcheddol gwirfoddol Byddwn yn gweithio gyda chymunedau lleol i helpu i sefydlu a chynnal grwpiau perygl llifogydd lleol lle bydd perygl llifogydd lleol yn cael ei reoli gan y cymunedau eu hunain.
5 Gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws y Ddinas ar Reoli Dŵr	Byddwn yn gweithio gyda chymunedau lleol yn ystod y gwaith o adolygu a llunio ein Strategaeth a'n Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd.	Byddwn yn gweithio gyda'r byd academaidd i ddatblygu prosiectau ac offer lleol i reoli perygl llifogydd ledled y ddinas.